# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 12 Gorffennaf 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

# 153(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

(5 munud)

**NNDM8336** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i), a'r rhan o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM8335 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher, 12 Gorffennaf 2023.

## 1 Cynnig i sefydlu pwyllgor

(5 munud)

**NNDM8335** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 16.3, yn sefydlu Pwyllgor Biliau Diwygio i graffu ar Filiau a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

Yn cytuno y bydd y Pwyllgor yn cael ei ddiddymu naill ai:

i) pan fydd yr holl Filiau a gyfeiriwyd at y Pwyllgor wedi cael y Cydsyniad Brenhinol ac mae'r Pwyllgor Busnes wedi penderfynu na fydd unrhyw Filiau pellach yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor; neu

ii) pan fydd y Senedd yn penderfynu felly;

pa un bynnag sydd gynharaf.

## 2 Cynnig i ddyrannu cadeirydd pwyllgor i grwp gwleidyddol

(5 munud)

**NNDM8337** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.2A, yn cytuno mai'r grŵp gwleidyddol y caiff cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio ei ethol ohono fydd grŵp Llafur Cymru.

## 3 Enwebiadau ar gyfer cadeirydd pwyllgor

(5 munud)

Bydd y Llywydd yn gwahodd enwebiadau ar gyfer cadeirydd y pwyllgor a ganlyn, yn unol â Rheol Sefydlog 17.2F:

1. Y Pwyllgor Biliau Diwygio – Llafur.

## 4 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 5 Cwestiynau i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 6 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Weinidog y Gymraeg ac Addysg**

Sioned Williams (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar benderfyniad y Llywodraeth na fydd yn darparu prydiau bwyd am ddim i blant ysgol cymwys yn ystod gwyliau'r haf?

**Gofyn i'r Gweinidog Newid Hinsawdd**

James Evans (Brycheiniog a Sir Faesyfed): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ffaith bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gostwng sgôr Dŵr Cymru?

**Gofyn i Weinidog yr Economi**

Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am benderfyniad Cymdeithas Adeiladu Sir Fynwy i roi'r gorau i'r prosiect banc cymunedol?

Natasha Asghar (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gau Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru, sydd wedi arwain at ddileu £27.1m yng nghyfrifon Banc Datblygu Cymru ar gyfer 2022-23?

## 7 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 8 Dadl y Pwyllgor Cyllid - Blaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllideb 2024-25

(60 munud)

**NDM8329** Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r gwaith ymgysylltu a wnaed gan y Pwyllgor Cyllid yn ymwneud â blaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllideb 2024-25, ac yn nodi ymhellach y sylwadau a wnaed gan gyfranogwyr yn y digwyddiadau a ganlyn:

a) digwyddiad i randdeiliaid ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam;

b) gweithdy gydag aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru; a

c) grwpiau ffocws ymgysylltu â dinasyddion.

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25: Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu y Pwyllgor Cyllid

## 9 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad – Fframweithiau Cyffredin

(30 munud)

**NDM8328** Huw Irranca-Davies (Ogwr)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sef Fframweithiau Cyffredin, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mai 2023.

Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Gorffennaf 2023.

## 10 Dadl ar y cyd y Pwyllgor Deisebau a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal

(60 munud)

**NDM8327** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau 'Cefnogi rhieni sydd wedi bod mewn gofal' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 02 Mawrth 2023 ac adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mai 2023.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Deisebau yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin 2023 a gosodwyd yr ymateb i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 5 Gorffennaf 2023.

**Cyd-gyflwynwyr**

Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

## 11 Dadl Plaid Cymru – Ystâd y Goron

(60 munud)

**NDM8326** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) bod Ystâd y Goron, ar lefel y DU, wedi cofnodi elw refeniw net o £442.6m yn y flwyddyn ariannol 2022-23; a

b) bod gwerth asedau Ystâd y Goron yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gyrraedd £603 miliwn ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021.

2. Yn credu y gellid gwireddu nodau sero-net Cymru yn fwy effeithiol pe bai ganddi reolaeth lawn dros ei hadnoddau.

3. Yn galw am ddatganoli pwerau dros reoli Ystâd y Goron a'i hasedau yng Nghymru.

Creating lasting and shared prosperity for the nation -The Crown Estate (Saesneg yn unig)

Uchafbwyntiau Cymru - Ystâd y Goron

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwyntiau 2 a 3 a rhoi yn eu lle:

Yn croesawu cyfraniad cadarnhaol Ystâd y Goron tuag at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chynyddu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy drwy sefydlu sector ynni adnewyddadwy ar y môr blaengar.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu ag Ystâd y Goron a rhanddeiliaid eraill i gyflawni ei nodau sero net a chyflawni:

strategaeth hydrogen i Gymru;

cynllun datblygu morol cenedlaethol Cymru;

cynllun adfer carbon glas cenedlaethol i Gymru; a

cefnogaeth i brosiectau hydro ar raddfa fach.

## Cynnig i ethol Aelodau i bwyllgor - Y Pwyllgor Biliau Diwygio

(5 munud)

**NNDM8338** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Sarah Murphy (Llafur Cymru), Darren Millar (y Ceidwadwyr Cymreig) a Heledd Fychan (Plaid Cymru) yn aelodau o'r Pwyllgor Biliau Diwygio.

## Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor

(5 munud)

**NNDM8334** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Buffy Williams (Llafur Cymru) yn aelod o Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn lle Sarah Murphy (Llafur Cymru).

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

(5 munud)

**NNDM8332** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal y rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol mai'r cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yw'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu trafod NDM8331 yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher, 12 Gorffennaf 2023.

## 12 Cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog - Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru

(5 munud)

**NDM8331** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Gorffennaf 2023.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog er mwyn ychwanegu Rheol Sefydlog 35 newydd, fel y nodir yn Atodiad A o adroddiad y Pwyllgor Busnes.

3. Yn nodi bod y newidiadau hyn yn rhai dros dro, ac y byddant yn peidio â chael effaith yn dilyn penderfyniad gan y Senedd y dylai Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru ddod i ben, neu pan gaiff y Senedd hon ei diddymu, pa un bynnag sydd gyntaf.

## 13 Cyfnod Pleidleisio

## 14 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8330** Russell George (Sir Drefaldwyn)

Pwysigrwydd dysgu CPR i holl Aelodau o'r Senedd

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 12 Medi 2023